

Pris: 50c

Papur Pawb

Ebrill 2025

Rhif 508



Ysgol iach. Tud. 6

tud 5

Siop Newydd

tud 8

Gŵyl Ddrama

tud 9

Talwrn

tud 12

Chwaraeon

Doniau Cefn Gwlad ar eu gorau yn Nhal-y-bont



Llun gan Ian Tŷ Morlais

Mae aredig yn dipyn o sgil - dyw e ddim yn unig yn edrych ar ba mor syth mae'r cwysi. Mae'n rhaid ystyried agor cefn (y dechrau), cysondeb y dywarchen, cadernid, dyfnder, lefel, dim tyllau a'r rhych (y diwedd)... Lot i feddwl amdano, wrth yrru am 'mlaen, tra'n edrych tuag nôl (yn araf iawn!). Mae plygu sietyrn yn waith caled, yn enwedig mewn tywydd braf! Mae'n rhaid ystyried os yw'n ddiogel rhag stoc, dewis ac ongl y plethu, taclusrwydd, sythder, absenoldeb niwed i'r rhisgl, uchder, polion a rhwymau, a chywirdeb i'r steil.

Yn y gymuned aredig gystadleuol, mae dewis o tua 15 dosbarth ar gael yn dibynnu ar ba dractor, ceffyl ac aradr sy'n cael ei ddefnyddio.

Yn y gymuned plygu sietyrn cystadleuol, mae'r dewis yn dyblu, gyda dros 30 steil posib!

Sefydlwyd Cymdeithas Aredig a Phlygu Gogledd Ceredigion ym 1961, gyda'r gystadleuaeth yn cael ei gynnal yng Nghapel Bangor am y tair blynedd gyntaf, cyn symud o amgylch yr ardal. Dros y degawdau, mae cystadleuaeth y gymdeithas wedi teithio i Lanrhystud, Tregaron, Llanilar, Gelli Angharad, Blaenpennal, Trawscoed, Abermagwr, Llanddewi Brefi, Llannon, Llangeitho, Llambled, Felinfach a Rhos y Garth.

Cyn cystadleuaeth 2025, yr agosaf buodd y gymdeithas i Dal-y-bont oedd Gogerddan yn 2017 ac yn Borth yn 2004.

Mae cynnal cystadleuaeth yn dibynnu ar dipyn o garedigrwydd - caredigrwydd trefeddianwyr sy'n fodlon cynnig tir a sietyrn, beirniadau yn rhoi o'i hamser, cystadluwyr yn mynychu i gefnogi

cymdeithas fach, cefnogaeth aelodau'r cyhoedd a'r caredigrwydd mwyaf anrhagweladwy - y tywydd!

Yn hanes y gymdeithas, doedd dim cystadleuaeth yn 2018 oherwydd bod y tywydd wedi bod mor wael, blynyddoedd eraill i'r gymdeithas beidio gallu cynnal digwyddiad am resymau tu hwnt ei rheolaeth oedd 2001 oherwydd clwyf traed a'r genau a 2020 a 2021 oherwydd y pandemig.

Ar yr 22ain o Fawrth eleni, roedd y tywydd ar ein hochr. Cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus iawn, gydag 16 yn cystadlu ar draws 7 dosbarth aredig, a 3 yn cystadlu ar draws 2 ddsbarth plygu. Dyma'r tro cyntaf i'r gymdeithas allu cynnal cystadleuaeth plygu ers dros 20 mlynedd.

Diolch i Eluned Cynnullmawr a'r teulu, a theulu Neuaddfawr am y defnydd o'r caeau. Diolch i lywydd y dydd, Elisabeth Cwmudw, sydd wedi bod ynghlwm â'r gymdeithas ers nifer o flynyddoedd gan roedd Dilwyn ar y pwyllgor ers dros 50 mlynedd. Diolch i Lodwick Jones ac Aled Morgan am feirniadu'r aredig, ac i Huw Jones am feirniadu'r plygu.

Pwyllgor o 7 yw'r gymdeithas Cadeirydd - John Davies, Is-gadeirydd - Hywel Williams, Ysgrifenyddes - Phyllis Harries, Trysorydd - Glyn Davies, ac aelodau Gwenda Davies ac Eleri a Mererid Cwmudw - mae pob arwydd o gefnogaeth a help llaw wrth osod a clirio'r cae yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Os hoffech gynnig tir a sietyrn i gynnal digwyddiad yn y dyfodol, cysylltwch gyda'r pwyllgor. ([Canlyniadau: Tud. 2](#))

Mererid Watson

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:

Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:

Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
07507 652092

Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgrifiadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Helena O Sullivan, Bont-goch
07812 994 008

Dylunio:

Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon;
John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru.*

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rhian a Shân gyda Iolo yn dylunio. Diolch iddynt.

Cathryn (cat_yfoel@hotmail.com) a Llio (lliorhys@yahoo.co.uk) fydd yn golygu rhifyn Mai. Y dyddiad cau yw 2 Mai a bydd y papur yn y siopau ar 9 Mai.

....o dudalen 1:

Doniau Cefn Gwlad ar eu gorau yn Nhal-y-bont



Aredig

Dosbarth Ffyrgi
1af - John Evans

Dosbarth Nofis
1af - Hefin Lloyd Jones

Dosbarth Clasurol
1af - Ceri Richards
2il - Robert Pugh
3ydd - David Nicholas

Dosbarth Hydrolig o dras (Vintage Hydraulic)
1af - Emlyn Jones
2il - John Lewis
3ydd - Gareth Harries

Dosbarth Trelar
1af - Sam Jones
2il - Mike Yeates
3ydd - Dafydd Williams

Dosbarth lled-balwr (Semi Digger)
1af - Rhodri George
2il - Byron Jones

Dosbarth Uchel-dorri (High-cut)
1af - Morgan Evans

Pencampwr Aredig Cyffredinol
Morgan Evans

Pencampwr Aredig Ceredigion
Gareth Harries

Plygu
Dosbarth Nofis
1af - Allan Evans

Dosbarth Agored
1af - Cliff Hamer
2il - Richard Lewis

Pencampwr Plygu
Cliff Hamer



Cliff Hamer
(Pencampwr Plygu Sietyn) ag
Elisabeth James, Cwmudw
(Llywydd y dydd)



Morgan Evans
(Pencampwr Aredig) ag
Elisabeth James, Cwmudw
(Llywydd y dydd)

Papur Pawb tu allan i ddalgylch y papur

Siop Inc Aberystwyth
Swyddfa Bost Penrhyn-coch
Siop Spar Bow Street
Mr News Machynlleth

DYDDIADUR

EBRILL

- 13 **Bethel** 10 Uno â Seion, Andrew Lenny
Rehoboth 2 Judith Morris
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15
- 14 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** Gareth Owen
- 18 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 10 Gwasanaeth Boreol, Gary Taverner
Te a Byns Croes Poeth 2.30-4.30 Yr Ystafell Haeam, Eglwysfach
- 19 **Dal Ati** 10.30-11.30 Cletwr
- 20 **Bethel** 10 Oedfa Pasg yr Ofalaeth, Geraint Evans
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Ewcharist Sanctaidd, Canon Philip Wyn Davies
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid
- 24 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddï Hwyrrol
- 25 **Sesiwn Nos Wener** 8 Y Llew Gwyn (Brigyn)
- 25-27 **Gŵyl Crime Cymru Festival** yn Aberystwyth. Manylion a rhaglen ar y wefan <https://gwylcrimecymrufestival.co.uk>
- 26 **Sêl planhigion** 10.00-13.00 Neuadd Goffa, Tal-y-bont
- 27 **Bethel** 10 Wyn Morris (C)
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

MAI

- 3 **Dal Ati** 10.30-11.30 Cletwr
- 4 **Bethel** 10 Uno â Seion, Euros Jones Evans
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
- 18 **Gŵyl y Peillwyr** 10-4 Cletwr

BOB WYTHNOS

Neuadd Goffa Tal-y-bont Bore Mawrth 10-12 Cwtsh Cynnes, coffi a chlonc
Cletwr Dydd Mawrth 1-4 'Clonc a Gweu'

Cofiwch anfon manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad at Carys Briddon,
carysbriddon@btinternet.com
01970 832478
o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Eisteddfod yr Urdd

Pob hwyl i Cadi Wen a Mostyn, Bont-goch, sy'n aelodau o gôr cynradd Adran Aberystwyth a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Margam yn dilyn eu llwyddiant yn Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion. Bydd Blythe Hiscox a Tomos Breese hefyd yn cystadlu gyda chôr iau Penweddig a Tomos gyda'r côr bechgyn.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu a ffrindiau Jeff Davies, Tre'r ddôl a fu farw ym mis Chwefror bu Jeff yn gweithio am flynyddoedd yn yr amgueddfa yng Ngapel Soar, Tre'r ddôl.

Cydymdeimlwn â theulu Shân Medway (Edwards gynt) a fu farw ddechrau Mawrth. Bu'n byw ym Maesyderi, Tal-y-bont, cyn priodi a symud i ogledd Cymru. Ar un adeg roedd yn ysgrifennydd y Neuadd Goffa.

Cymdeimlwn hefyd â theulu Cledwyn Evans, Aberystwyth a fu farw ar ddechrau Ebrill.

Genedigaeth

Mae nifer o fabis wedi cyrraedd yr ardal yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Hefin a Grace, Neuadd Fawr ar enedigaeth ei merch fach Winifred Mair, chwaer fach i Arwel ac wyres i Jen Evans.

Ganwyd bachgen bach Jac Hayden i Scott a Ffion, wyres fach gyntaf i Julie a Grant Mayhew a gor wyres i Phyllis Ellis.

Ganwyd merch fach Maisie, i Arwyn a Rachel, chwaer i Milly, wyres i Janet a Stephen Evans a gor wyres i Barbara Jenkins a Pamela Byrne.

Llongyfarchiadau i Saran a Greg, Tal-y-bont, ar enedigaeth eu mab, Ivor.

Symud tŷ

Croeso i Josh a Jolie sydd wedi ymgartrefu ym Maes Mwyn.

Gwellad

Dymunwn wellhad buan i Ryan Evans, Maesyderi sydd wedi bod yn derbyn gofal yn Ysbyty Stoke.



Mair Nutting yn cyflwyno casgliad Gwasaneth Nadolig Ysgol Sul Bethel i'r Samariaid.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Rhydian Evans ac Elfed Jackson a fu'n cystadlu fel rhan o dîm Cymru yng nghystadlaethau cneifio gwellau y Chwe Gwlad yn Ffrainc. Cipwyd yr ail safle.

Gwellhad buan i Mark Bradley yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Treforus.

Penblwydd hapus

Penblwydd hapus i Richie Evans, Glanrafon a Graham Briddon, Tre'r ddôl, a fu'n dathlu eu penblwyddi'n 80 yn ddiweddar. Gobeithio fod Richie'n gwella'n dda wedi cyfnod yn yr ysbyty.

Yr Ystafell Haearn

Mae band eang bellach wedi ei osod yn yr Ysfaell Haearn a fydd yn galluogi'r neuadd

i gael ei defnyddio'n fwy effeithiol ar gyfer cyfrafodydd a digwyddiadau. Mae'r Cyngor Cymuned yn ariannu'r ffoedd misol

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Prys Hughes a Marjolein Martinius ar ei dyweddian yn Awstralia.

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Prynhawn gan yr aelodau a gafwyd yn y cyfarfod ar brynhawn 11 Mawrth, a daethant ag eitem o'u heiddo

i'w dangos a dweud ychydig o'i hanes. Roedd nifer o eitemau diddorol wedi eu gosod ar y bwrdd, a mwynhawyd clywed am yr atgofion a ddaethant yn ôl i'w perchnogion.

Bu mwy o drafodaeth eto wrth gael paned o de a bisgedi ar y diwedd.

Wythnos Cymorth Cristnogol

Bydd casglwyr yn dosbarthu amlenni i dderbyn cyfraniadau yn ystod yr wythnos 11-17eg o Fai.

Bydd bore coffi hefyd yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa (dyddiad i'w gadarnhau).

Digwyddiadau'r Pasg yn Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach


Dydd Iau Cablyd, 17 Ebrill, 7 - 8yh : Cynhelir gwasanaeth Taizé i adfyfrio am y Pasg. Bydd y gwasanaeth yng ngofal Gary Taverner.

Dydd Gwener Groglith, 18 Ebrill, 10.00 yb. Gwasaneth o dan arweniad Gary Taverner. Yn ystod y prynhawn, 2.30 - 4.30yh, yn yr Ystafell Haearn ymunwch â ni am byniau twym a phaned a chyfle i fwynhau sgwrs a chymdeithasu. Dydd Sul Pasg, 20 Ebrill, 9.30 yb. Gwasaneth Cymun gyda'r Canon Philip Wyn Davies.

Mae'r Eglwys bellach ar agor bob dydd o 10-5. Mae'r fynwent yn edrych yn brydferth gyda'r blodau gwyllt a chlychau'r gog yn dechrau ymddangos. Mae dwy fainc newydd hyfryd wedi eu rhoi yn hael i bawb eu mwynhau wrth wyluo'r bywyd gwyllt ynghanol y blodau gwyllt.

Clwb 100 Neuadd Llanfach

Enillwyr mis Mawrth
1. Rhif 51 Bethan Griffiths
2. Rhif 81 Heather Jones
3. Rhif 23 Sylvia Cartwright




**Am
GOFBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am barmffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

Mae Clwb Ffermwyr Ifanc (CFFI) Tal-y-bont wedi cael dechrau prysur ac ysbrydoledig i'r flwyddyn, gan ddangos gwir ysbryd cymunedol a haelioni. Ar 18 Mawrth, daeth CFFI Tal-y-bont a CFFI Bro Dyfi ynghyd i berfformio eu pantomeimiau yn Neuadd Tal-y-bont. Roedd y noson yn llawn hwyl, doniau a chreadigrwydd wrth i'r ddau glwb berfformio eu pantomeimiau i'r gymuned leol.



Roedd y digwyddiad nid yn unig yn ddatliad o berfformio, ond hefyd yn gyfle i gefnogi achosion teilwng. Trwy wahanol ymdrechion codi arian, mae CFFI Tal-y-bont wedi llwyddo i godi dros £2,000 i ddwy elusen anhygoel: HAHAV a Beiciau Gwaed Cymru. Mae'r elusennau hyn yn darparu gwasanaethau hanfodol ledled y rhanbarth, ac mae'r cyfraniad yn mynd tuag at gynnal eu gwaith gwerthfawr.



Mae'r digwyddiad wedi tynnu sylw at wir ysbryd CFFI – dod â phobl ynghyd, cefnogi achosion da a chreu atgofion bythgofiadwy. Mae CFFI Tal-y-bont yn parhau i ddangos sut gall mentrau gan bobl ifanc wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn lleol.

Ela Jones

DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN 2025

**Corddi Dyfroedd y Gydwylod Gymraeg:
Heddychiaeth a Chenedlaetholdeb E. Prosser Rhys**

Darlith gan **Dr Gareth Evans-Jones**

Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor

Nos Lun, 12 Mai, 2025

5.30 o'r gloch

Canolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth

CROESO I BAWB!

Canolfan Morlan / Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen

01970 612806 / post@jamespantyfedwen.cymru



Salon Leri

Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard

Mawrth i Gwener
9.30 – 5.00

01970 832 674

Probert
Williams
eye care

**Eich optegwyr
annibynnol lleol**

15 Stryd y Popty, Aberystwyth

01970 611555

www.probertandwilliams.co.uk



**GWASANAETHAU
JETTING
JENKINS**

JETIO DRAENIAU DOMESTIG A MASNACHOL & AROLYGON CCTV

jenkinsjetting@hotmail.com

07958 701861

argraffu

lleol a rhesymol



Ylfa

Talybont Ceredigion SY24 5HE

01970 832 304 / www.ylfa.com

Holwch Paul am bris: paul@ylfa.com

Clwb Ieuenctid Tal-y-bont



YN EISIAU GWIRFODDOLWYR!

MAE CLWB IEUENCTID TALYBONT
YN CHWILIO AM WIRFODDOLWYR!

Ydych chi'n oedolyn sy'n gallu cynnig ychydig amser i wirfoddoli gyda'r clwb? Byddem yn gwerthfawrogi cymaint neu cyn lleied o amser y gallwch gynnig – petai hynny'n wythnosol, unwaith y mis, neu nawr ac yn y man!

Os oes diddordeb gyda chi, hoffem glywed gennych! Galwch mewn i siarad â ni, danfonwch neges atom ar ein tudlaen facebook @CITalybtonYC neu ffoniwch Lowri ar 07730667126.

DBS MANWL AM DDIM



Gyda 40 o bobl ifanc yn mynychu bob wythnos, mae Clwb Ieuenctid Tal-y-bont yn edrych am wirfoddolwyr er mwyn sicrhau bod y clwb yn gallu parhau i agor yn wythnosol, yn ystod y tymor ysgol.

Clwb Gwawr y Pennau



Aeth aelodau Clwb Gwawr y Pennau ar daith ar y bws i Aberaeron. Cafwyd amser i edrych o gwmpas y siopau a chael cinio hyfryd yn Y Seler. Diolch i Meryl a Catrin am drefnu. Braf iawn hefyd oedd ymuno gydag aelodau Merched y Wawr Tal-y-bont yn eu cyfarfod yng nghwmni Hazel Thomas. Cafodd un neu ddwy aelod steilio a thorri eu gwallt gan Hazel a mwynhawyd gwrandao ar storïau Hazel am ei gyrfa a'i bywyd diddorol iawn.

Colofn Elin Jones AS



Mae mis Mawrth wedi bod yn gyfnod prysur. Fues i'n cadeirio cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan Prifysgol Y Drindod Dewi Sant i gael clywed ymateb trigolion ynglŷn â dyfodol campws y Brifysgol yn Llambled. Er fod yr Is Ganghellor, Elwen Evans, wedi dweud nifer o weithiau nad yw'r Brifysgol yn bwriadu cau'r campws, rydym yn aros i glywed am gynlluniau gwerth chweil fydd yn sicrhau dyfodol

llewyrchus i'r dref a'r campws. Mae'r Brifysgol yn ymgynghori ar hyn o bryd, ac edrychwn ymlaen i glywed mwy yn y dyfodol agos wrth i sgwrsiau barhau.

Roedd yn dda cael y cyfle i gynnal cyfarfod ar y cyd gyda Ben Lake AS, Ann Davies AS, Cefin Campbell AS ac Adam Price AS yn Llanllwni yn ddiweddar i drafod pryderon grwpiau sy'n ymgyrchu yn erbyn y seilwaith peilonau arfaethedig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd yn bwysig i ni glywed safbwyntiau a theimladau trigolion, ac i fynegi ein cefnogaeth dros tan ddaearu gwifrau trydan.

Roedd yn dda clywed fod Trafnidiaeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar wasanaeth gwibfws newydd fydd yn cysylltu gogledd a de Cymru. Gwasanaeth stop cyflym fyddai'r gwasanaeth yn galw yn nhrefi a gorsafoedd rheilffordd allweddol rhwng Bangor a Chaerfyrddin, gan gynnwys Aberystwyth, Aberaeron, a Llandysul. Gobeithio y bydd pawb yn achub ar y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad a dwi'n falch bod cynllun i gynyddu ein gwasanaethau bysiau yn y sir, i ddatblygu coridor trafniadaeth gorllewin Cymru ymhellach fel rhan o baratoi ar gyfer dychwelyd y rhwydwaith rheilffordd ar hyd yr un coridor rhyw ddiwrnod. Mae angen amlwg hefyd i rai o'r gwasanaethau newydd fynd cyn belled â Chaerdydd, ac mae sicrhau bod y TIC o Aberystwyth i Gaerdydd yn parhau, a'r amserlen yn cael ei ymestyn, hefyd yn bwysig iawn i drigolion Ceredigion.

Cofiwch gysylltu os ydych eisiau unrhyw gefnogaeth neu rannu barn gyda fi. Mae croeso i chi anfon ebost ataf (elin.jones@senedd.cymru) neu gysylltu â'm swyddfa i drafod ymhellach (01970 624516).

Agor siop newydd 'David Gilbert Jewellery'



Llongyfarchiadau mawr iawn i David a Christine Gilbert, Tre'r Ddôl am agor ei siop newydd 'David Gilbert Jewellery' ar y Stryd Fawr yn Aberystwyth. Ar ôl i 9 mlynedd o fasnachu yn Hen Neuadd y Farchnad yn Aberystwyth agorodd y siop newydd ar y 29ain o Fawrth. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y safle newydd a chofiwch alw mewn i'r siop.

Ysgol Tal-y-bont

Ysgol y Gymuned

Diwrnod Trwynau Coch

Cafwyd prynhawn prysur iawn eleni eto gydag aelodau'r Cyngor Ysgol yn trefnu'r gweithgareddau amrywiol ar ein rhan. Penderfynwyd cynnal sesiynau bowlïo-10 i bob dosbarth, creu stondin gwerthu cacennau a pheintio trwynau'n goch. Ond y weithgaredd mwyaf poblogaidd oedd cael dip lwcus a dewis jôc i'w darllen. Diolch yn fawr i ac am yr ymdrechion i godi arian at yr elusen bwysig yma.



Llais y Disgybl

Dros y misoedd diwethaf mae disgyblion brwdfrydig yr ysgol wedi bod yn cynnal eu clybiau eu hunain yn ystod amser chwarae. Yn dilyn clybiau rygbi, dawnsio a gymnasteg, y syniad diweddaraf yw cynnal Clwb Cheerleaders! Diolch yn fawr i'r staff am hybu diddordebau'r disgyblion ac i'r plant eu hunain wrth gwrs am eu brwdfrydedd heintus. Pob hwyl gyda'r pom-poms!

Clwb ar ôl Ysgol

Diolch yn fawr i Miss Eirian, Miss Kate a Miss Emily am eu gwaith yn y Clwb ar ôl Ysgol. Mae Cwmni BMO wedi parhau i gynnal sesiynau i'r plant ar ôl ysgol hefyd. Diolch yn fawr i chi gyd am gynnal y gweithgareddau hwyliog.

Ffair Wyddoniaeth

Mae plant Ysgol Tal-y-bont yn hoff iawn o ymweld â'r Ffair Wyddoniaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth bob blwyddyn. Mae'n ffordd ymarferol a hwyliog o ddysgu am wahanol agweddau o wyddoniaeth. Roedd hi'n hwyl i grwydro o gwmpas y stondinau a chyflawni'r heriau gwahanol. Diolch yn fawr i staff y Brifysgol am drefnu'r digwyddiad ac am fod mor amyneddgar wrth esbonio gwahanol agweddau o wyddoniaeth ar y diwrnod.



Ysgol Greadigol

Gwersi Offerynnol

Rydym yn ffodus iawn o fod yn gallu cynnig gwersi offerynnol amrywiol ac eang yn yr ysgol. Dyma restr o'r offerynnau sy'n cael eu dysgu yma ar hyn o bryd:- recorder, fflwt, clarinét, ffidil, piano, telyn, cornet ac offerynnau taro! Tipyn o gamp!

Diolch

Hoffai'r staff ddiolch o galon i rieni a ffrindiau'r ysgol am bob cymorth dros yr wythnosau diwethaf. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich cefnogaeth i'r ysgol. Cofiwch am ein nofio noddedig, dyma'r ddolen ar gyfer y wefan [Just Giving - Crowdfunding For Good From JustGiving](#).

Ysgol Iach

Sustrans



Ar ddechrau mis Ebrill buom yn annog y plant i feicio, cerdded a sgwtera i'r ysgol fel rhan o gynllun Strolïo a Rolïo 2025. Mae'n her flynyddol lle bod ysgolion yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd teithio heb ddiybnu ar geir. Mae hyn yn ffordd wych i gael mwy o'n disgyblion i deithio'n iach i'r ysgol ac mae'n ffordd syml o hybu ein hiechyd corfforol a'n hiechyd meddwl. Gyda'r ymgyrch i leihau cyflymder trafndiaeth yn parhau, mae unrhyw gyfle i leihau traffig a llygredd aer tu allan i'r ysgol yn bwysig. Fel gwobr, mae'r plant yn cael cyfle i feicio o gwmpas yr iard i ddiolch iddynt am eu hymdrechion.

Gŵyl Aml-sgiliau



Rydym yn ffodus iawn o gael ein gwahodd i wyliau aml-sgiliau'n aml dros y flwyddyn. Y tro yma Blwyddyn 3 a 4 gafodd fynd ar gae aml-bwrpas Prifysgol Aberystwyth i ymarfer gwahanol fedrau mewn amrywiol gampau. Roedd pawb wedi cael amser da ac wedi cael cyfle i gyfarfod eto gyda'n ffrindiau yn Ysgol Craig yr Wylfa

Hoci



Mae plant yr ysgol wedi cael cryn lwyddiant yn chwarae hoci eleni. I orffen y tymor, chwaraewyd pencampwriaeth rhwng ysgolion cylch Aberystwyth ac fe wnaeth tîm yr ysgol yn arbennig o dda gan ennill 7 gêm yn ystod y prynhawn. Diolch yn fawr i'r staff am drefnu'r digwyddiad ac i'r plant am eu brwdfrydedd.

Ysgol Eco

Prosiect Cawl



Mae'r ysgol yn chwilio am gyfleoedd cyson i gyfoethogi ein darpariaeth. Yn ddiweddar, rydym wedi dechrau cydweithio gyda Kate Fenhalls ar brosiect o'r enw 'Prosiect Cawl'. Nod y prosiect yma yw cynyddu gwybodaeth y plant am dyfu bwyd ac yn y pendraw i ddysgu sut i goginio'r llysiau sydd wedi eu tyfu. Bydd llawer o'r sesiynau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd byd natur hefyd.

Gweithdy Côt Cefn Gwlad



Yn ystod y mis, cafwyd gweithdy diddorol i bwysleisio pwysigrwydd cadw at y Côt Cefn Gwlad wrth i ni grwydro o gwmpas yr ardal. Roedd yn gyfle da hefyd i ddechrau darllen map a gwybod ystyron gwahanol arwyddion oedd ar y daith gerdded. Diolch i Bethan a'r criw am ddod atom, ac rydym yn edrych ymlaen i'ch gweld chi eto'n fuan.

STORFA HUNAN FYNEDIAD



UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

**MONITRO DIOGELWCH
24 AWR**

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda 

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592

Hool Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

 **MID WALES STORAGE**

www.midwalesstorage.co.uk

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278



APPROVED CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

M 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
E alun.davies142@btinternet.com



LLAETH TEULU
JENKINS
FAMILY MILK





@cwtshllaeth

Yn NATURiol



Ar dudalen flaen Papur Pawb mis Chwefror roedd yr erthygl HOLI POBL TAL-Y-BONT yn sôn am broblem llifogydd yn y cylch a sut i reoli dŵr y Leri a'r Ceulan. Tua diwedd roedd dyfyniad gan Linda Denton, aelod o'r Grŵp Llifogwyr yn sôn am atal llif cyflym dŵr gydag argaeau o helyg byw. Bwriad y rhain yw caniatáu i'r dŵr Gronni a llifo dan reolaeth yn hytrach na chael rhwydd hynt i redeg yn wyllt. Mewn rhai gwledydd yr afanc sy'n gwneud y gwaith o adeiladu argaeau ond llaw ddynol ryw sydd i'w weld yng nghylch Papur Pawb!

Helyg byw pedair blwydd oed yw'r coed sydd yn sefyll ar i fyny. Gwreiddia'r rhain mewn amser ac amsugno dŵr glaw tra bod y darnau ar draws yn brysgwydd. Dewiswyd y llecyn yma yn arbennig i geisio atal rhediad y dŵr ac arbed llifogydd o'r nant a red yn wyllt o bryd i'w gilydd dros y ffordd rhwng Tal-y-bont a Bont Goch. Hyfforddwyd dau o Dal-y-bont ar sut i wneud yr argae, talwyd am y cyfan gan y Woodland Trust ac o'r Willow Bank daeth yr helyg.

Mae'r efaill erthygl am blannu coed wrth y mil hefyd yn rhannol gyfrannu tuag at atal llif dŵr gan fod coed yn wych am amsugno dŵr glaw a'i gadw rhag cyrraedd nant, ac yn y pen draw afon i achosi llifogydd ambell waith.

Bydd Grŵp Coed Tal-y-bont allan yn plannu ym mis Ebrill ar ddau fore'r wythnos. Rydyn ni'n cynllunio i blannu 2,000 o goed a dros y tair blynedd nesaf byddwn wedi plannu 36,000 o goed. Bydd y rhan fwyaf fel siety'n ar ffermydd. Mae ein diolch i elusen Coed Cadw sy'n ein cefnogi drwy gyfrannu'r coed a'r arian.

Os am fod o gymorth cysyllter â Linda lindalime@myphone.coop

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Cletwr - Calon y gymuned

Oriau Agor

Llun-Sad

Dydd Sul

Siop: 9.00-5.30

Siop: 9.00-4.00

Caffi: 9.30-4.00

Caffi: 9.30-4.00

Mae'r cegin yn cau am 3yp bob dydd



 **26.04.25**
10:00 - 13:00

 **Sêl planhigion!**
Dewch i brynu planhigion i'r ty a'r ardd - neu i fwynhau paned a chacen am £2.50! **BARGEN!**

**Neuadd Goffa
Tal-y-bont**

Cronfa Cae Bach

15 EBRILL 2024
CYFLE I DDWEUD EICH DWEUD

RHWNG 3 A 5 Y PNAWN FYDDAI I'N
CAFFI CLETWR

DEWCH DRAW I DRAFFOD PROBLEMAU YR ARDAL
WNAI I FY NGORAU I HELPŪ

 Plaid Cymru
Party of Wales


CATRIN M. S. DAVIES
CYNGHORYDD CEULAN A MAESMAWR

Y Gair Olaf



Does dim posibil porï drwy bapurau amaethyddol heb ddod ar draws erthyglau yn sôn am y dreth etifeddiaeth ar amaeth, a'r ffaith eu fod wedi ymddangos yn ddirybuidd. Mae ffermio wedi wynebu sawl cyfnod o drai a llanw ar hyd yr oesoedd a chyfnodau gormesol.

Un cyfnod anodd sydd wedi ei gofnodi rhwng 1850-1890 yw'r annhegwch oedd yn bodoli ymhlith tenantiaid ar ffermydd a oedd yn eiddo i ystadau. Roedd grym y tîrfeiddianwyr yn gorfodi'r tenantiaid i fynd i'r eglwys yn hytrach na'r capel ac i bleidleisio 'Tory', yn groes i'w ewyllys. Byddai'r tenant yn cael rhybudd i adael y fferm os nad oedd ef a'i deulu yn cydymffurfio.

Gymaint oedd hyn nes yn 1896, sefydlodd y Llywodraeth Comisiwn Tir 1893-1896. Ymhlith y rhai a roddodd dystiolaeth i'r comisiwn oedd David Jenkins, ewythr fy nhad. Bron ugain mlynedd cyn hyn collodd ei dad ei fferm ar ystad Trawsgoed, a oedd wedi bod yn y teulu ers 1626. Y cyntaf o'r teulu i dal y tenantiaeth oedd Morgan Jenkins. Dywedodd bod ei dad wedi gwella'r tir a chodi tŷ ac ysgubar ar gost ei hun, a gorfod gadael heb geiniog o iawndal, hyn i gyd oherwydd ei fod wedi atal cwningod rhag difa cnwd o faip.

Ar ôl cael rhybudd i adael bu'n ffodus i gael tenantiaeth Cerrigaranau Uchaf yn Hydref 1875. Tystiodd o flaen y Comisiwn Tir am y driniaeth annynol a gafodd o law Lisburne, gael effaith ddofn ar ei dad, a ladd ar bob awydd ynddo i ymgymryd gwelliannau angenrheidiol.

Ymhelaethodd ar hyn trwy ddweud na chredai y gallai amaethyddiaeth ffynnu yng Nghymru nes cael Deddf Tir i sicrhau rhent teg, sicrwydd daliadaeth, iawndal am welliannau, ar hawl i'r deiliad wneud fel y mynno â helwriaeth.

Roedd David Jenkins wedi rhagweld yr 'Agricultural Act 1948' a'r deddfwriaethau a oedd yn diogelu'r tenantiaid.

Mae ffermydd teuluol o dan fygythiad eto, oherwydd y dreth etifeddiaeth - tybed a oes angen ystyried comisiwn tebyg i ddiogelu dyfodol ein cymunedau gwledig?

Dwi'n siwr bydd amaeth yn sefyll lan i'r her yma eto.

Dilwyn Jenkins

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Yng nghyfarfod olaf y flwyddyn ariannol, bu'r Cyngorwyr yn trafod barn yr Archwilydd ar yr Archwiliad llawn o gyfrifon 2023-24, a gwblhawyd ddechrau'r mis. Mae'r wybodaeth berthnasol i gyd i'w gweld ar wefan y Cyngor ac yn yr hysbysfyrddau yn Nhal-y-bont a Bont-goch.

Trafodwyd hefyd gwynion am feiciau modur yn sgramblo ar hyd y mynyddoedd ac yn chwalu'r tir; bydd y cwynion yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdodau perthnasol. Os oes yna unrhyw un arall sy'n dymuno gwneud cwyn neu sylw am y broblem hon, byddai'n ddefnyddiol pe gallech anfon ffotograffau fel tystiolaeth er mwyn hwyluso'r broses.

Rydym mewn trafodaeth â Chyngor Llangynfelyn i drefnu digwyddiad swyddogol i agor y llwybr troed rhwng Tal-y-bont a Thre Taliesin. Mae'r llwybr eisoes yn boblogaidd iawn, ond bydd hwn yng gyfle gwyh i ddod â'r ddwy gymuned ynghyd i ddathlu'r cydweithio ar y prosiect.

'Nawr bod y gwanwyn wedi dod, mae'n siŵr bod nifer ohonoch yn awyddus i wneud tipyn o arddio. [Os ydych am brynu planhigion i ychwanegu at eich gardd, dewch i'r sêl yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar 26 Ebrill](#). Diolch yn fawr i'r rheiny ohonoch sydd eisoes wrthi'n meithrin egin-blanhigion i'w gwerthu yno. Bydd mynediad am ddim, ond yn wahanol i'r llynedd, bydd yna gyfle eleni i gael sgwrs dros baned a chacen, felly dewch yn llw os ydych am harddu eich gerddi a chefnogi ymgyrch Cae Bach ar yr un pryd.

Enillwyr Clwb 200 mis Mawrth oedd:

1^{af} – Carys Davies

2^{il} – Margaret Hatch

3^{ydd} – Liz Hughes.

Llongyfarchiadau bawb.

Gŵyl Ddrama'r Groeslon



Bu cwmni drama ieuenctid Licris Olsorts yn cystadlu yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon nos Wener 21ain o Fawrth, yn perfformio drama wreiddiol can y cynhyrhydd Sion Pennant (Bontgoch), 'Noson Olaf o Ryddid'. Daeth y cwmni yn ail yn y gystadleuaeth a chipiodd Megan Griffiths dlws y Perfformiad Unigol Gorau am berfformiad "arbennig iawn" yng ngeiriau'r beirniad, Catrin Jones Hughes o Ynys Môn. Cafodd y pedair actores ganmoliaeth uchel a phob un ohonynt wedi eu henwi yn y rhestr fer ar gyfer gwobr y Perfformiad Unigol Gorau.

Mae'r cwmni yn gobeithio cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, fis Awst, ac fe fydd cyfle i ddarllenwyr Papur Pawb eu gweld yn perfformio yn lleol yng Ngŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion hefyd. Bydd manylion yr ŵyl ar gael yn fuan.

Ymdrech Dda ar y Talwrn

Er colli yn Rownd gyntaf y Talwrn radio eleni yn erbyn y Ffoaduriad o 74 marc i 72 mae Tîm Talwrn Tal-y-bont wedi cyrraedd yr ail rownd fel y collwyr gyda'r marciau uchaf. Byddant yn cwrdd a'r Cŵps eto eleni yn rownd yr 16 olaf. Pob hwyl i Gwenallt Llwyd Ifan, Anwen, Pierce, Phil Davies a Phil Thomas yn yr ornest sy'n cael ei recordio nos Fawrth 20 Mai. Dyma flas o gynnyrch y Rownd gyntaf.

Pennill bachog: Rhestr Pethau i'w Gwneud

Rhyddhau troseddwy'r asgell dde,
Rhoi tollau ar gymdogion,
Newid enw Gwlff y Mecs,
Ac esgus bod yn Gristion,
Anfon Musk i gw b y ffowls,
Gwobrwyo llawer unben,
Mynd i weld y Super Bowl
A rownd o olff i orffen.

PhD

Cywydd (heb fod dros 12 llinell): Cyfoeth(Mam)

Lliwiau'r dail sy'n llorio'r dydd
inni wrth odre'r lonydd,
a'r glaw oer ar garreg wleb
yw'r enw ar ei hwyneb.
Hithau'n y lluniau llonydd
yn y fan lle gwn na fydd
ail wanwyn iddi 'leni,
na tân ei chwmmiaeth hi.

Ond o bridd cwrlid ei bro,
am y maeth yn ymwithio,
daw o wiail a deiliach
y wên fawr Lili Wen Fach.

GLII

Telyneg Newyddion

(Phnom Penh, Hydref 1991)

Wedi'r gwres, daeth y gwynt ac yna'r glaw.

Rhuthrodd y plant i'r twll o dan y bonddo
i neidio a chrynu a chwerthin yn noeth yn eu cawod newydd.

Tawodd rhuthr y stryd am ennyd,
a threiddiodd y datganiad o bob radio.

Fe glywodd hi o'i llofft y llais stacato
yn datgan fod y pedwar gyda'u dwylo meddal, glân
wedi caniatáu y byddai eu plant
yn cael byw mewn heddwch.

Pwysodd allan drwy'r ffenest,
golchodd y glaw y chwys a'r dagrau o'i gruddiau.

Trwy losg ei llygaid gwelodd ei hunan neithiwr
yn croesi'r groesffordd ar ôl ei weld ef;
yn rhannu gwên a rhoi ei law yn ddidaro ar fol y ferch ifanc, swil.
Heb boeni am wlychu, fe gamodd hi allan.

PhT

Englyn: Dilynwyr

Drudwyod Aber ym mis Chwefror

I Aber dof gan wybod – yn y gwyll
y daw gŵyl o odod,
a'm pryder ar ddisberod
mae ias byw ym mis eu bod.

AP

Lloffion Llangynfelyn

Efallai y bydd rhai ohonoch yn cofio Jac ac Enid Williams, a oedd yn byw yn Brondirion, Taliesin, rhai blynyddoedd yn ôl. Roedd gan Jac y llys-enw 'Jac A A' gan y bu'n gweithio i gwmni moduro yr AA am flynyddoedd. Bu farw Jac yn 1982.

Daeth ei nith Gillian Thomas, Machynlleth, o hyd i ffeil o'i eiddo a oedd yn cynnwys copiâu o'r papur bro cyntaf yn y cylch sef *Lloffion Llangynfelyn*. Penderfynodd gyflwyno'r cyfan i archif *Papur Pawb* ac yr oeddem yn falch iawn o'u derbyn.

Cyhoeddwyd *Lloffion Llangynfelyn* rhwng 1956 ac 1958 ac mae 'na ddeuddeg rhifyn yn llawn straeon am y plwyf, gan adlewyrchu'r bwrwlwm gwbl Gymraeg a Chymreig a oedd yn nodweddu'r ardal saithdeg mlynedd yn ôl. Er ei fod yn gyntefig yr olwg o'i gymharu a slicrwydd cyhoeddiadau mwy diweddar, mae'n fywiog ac yn ddarllenadwy. Cawn hanes pob math o ddigwyddiadau fel eisteddfodau, tripiâu ysgol Sul, chwaraeon, cyfarfodydd y WI a chymdeithasau eraill. Cymraeg oedd iaith naturiol y gymuned a dim ond ychydig bach iawn o Saesneg a geir yn y papur drwyddi draw.



Gillian Thomas yn dangos rhifyn cyntaf *Lloffion Llangynfelyn*

Y golygydd oedd prifathro Ysgol Llangynfelyn, Huw Evans, tad y diweddar John Hefin a'i frawd Geraint Evans, y ddau a ddilynodd yrfaeodd llewyrchus yn y byd teledu. Arthur Pugh, Manchester House, oedd yn gyfrifol am yr argraffu a gwerthwyd y papur am chwe cheiniog y copi ar hyd a lled y plwyf. Doedd dim papur tebyg drwy Gymru gyfan.

Daeth y *Lloffion* i ben gyda rhifyn Hydref, Tachwedd, Rhagfyr 1958 oherwydd ym 1959 symudodd y prifathro i Aberystwyth. Dyna golled oedd hynny i drigolion Llangynfelyn.

O dro i dro byddwn yn cynnwys pigion o'r papur yn *Papur Pawb* gan obeithio y daw ag atgofion melys i'r sawl sy'n cofio sut oedd y gymuned ddiweddd yr 1950au.

Dyma ychydig i aros pryd o'r rhifyn cyntaf ym 1956:

Ar 17 Ionawr daeth y Prifardd y Parch. W J Gruffydd, Tal-y-bont, i sgwrsio a Chymdeithas Pobl Ifainc Rehoboth... Dangoswyd y Goron a enillodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol a roddwyd gan Gymry Los Angeles ac a gostiodd 500 o ddoleri, a chafodd pawb y fraint o wisgo'r goron hardd.

Ar 27 Ionawr daeth y ddau olau newydd ymlaen ar y ffordd fawr am y tro cyntaf, un wrth y Llan Fach a'r llall wrth gydiad y ddwy ffordd yn Nhref'r ddôl.

Cynhaliwyd tri chyfarfod ar yr un noson sef 8 Chwefror: Dosbarth dysgu Cymraeg; Gyrfa Chwist; a chyfarfod cyhoeddus o Undeb Cenedlaethol Ffermwyr Cymru yn Festri Rehoboth.

Bu Mai Evans, Brynallt, yn cynrychioli plant y cylch ar y rhaglen radio 'Bro Mebyd' a ddarlledwyd o ysgol Ardwyn.

Yn y lluoedd arfog oedd Lewis Oliver, Trwyn y Buarth, Gwyn Evans, Stryd y Capel, a'r brodyr David Morris Macdonald a John Morris Macdonald.

GJ

Merched y Wawr, Cangen Tal-y-bont

Pleser oedd croesawu aelodau Gwawr y Pennau atom i'n cyfarfod ym Mis Mawrth. Ein siaradwr gwâdd oedd Hazel Thomas Trefnydd Ceredigion a Phenfro o'r mudiad a fu'n sôn wrthym sut i drin gwallt. Roedd tair o ferched wedi gwirfoddoli i gael trin eu gwalltiau sef Rhian Nelmes, Fal Jenkins ac Aileen Williams.

Yn ystod y croeso iddi gan Eryl Evans, soniodd am yr amryfal swyddi a phrofiadau a oedd Hazel wedi eu cael. Gadawodd cartref yn un ar bymtheg oed i fynd i ddysgu sut oedd bod yn Chef yn Ngwesty'r Dorchester yn Llundain. Ennill clod iddi ei hun yno a mynd ymlaen i Gernyw i westy yno. Yn ystod taith bywyd mae

wedi dysgu sut i drin gwallt yn broffesiynol, dilyn cwrs Cymraeg ac ennill gradd Gymraeg yn Mhrifysgol Dewi Sant Llanbed. Bu hefyd yn dilyn cyrsiau yn y Brifysgol Agored. Ei phrif ddiddordeb beth bynnag yw bwyd iach organig. Sefydlodd Gŵyl Fwyd Llanbedr Pont Steffan a bu'n ymwneud â Menter Tir Glas.

Wrth drin gwalltiau, bu'n adrodd rhai hanesion ac ateb ymholiadau. Noson ddifyr iawn. Darparwyd lluniaeth ysgafn gan Eryl a Diana.

Diana Jones



Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor y Neuadd

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Rheoli Neuadd Goffa Tal-y-bont, nos Fercher 12 Mawrth dan gadeiryddiaeth Dafydd Jenkins.

Derbyniwyd adroddiadau o flwyddyn brysur a llwyddiannus iawn. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor am eu cefnogaeth, ac am eu parodrwydd i gynnig eu gwasanaeth ar bob achlysur. Diolchodd hefyd i'w gyd swyddogion am eu gwaith. Cyfeiriodd yn arbennig at ddathliadau'r Canmlwyddiant a diolchodd yn benodol i Gwyn Jenkins am ei holl waith yn sicrhau llwyddiant y dathliadau.

Yn ei adroddiad yntau manteisiodd y Trysorydd, Ieuan Morgan ar y cyfle i ddiolch am y cyfraniadau ariannol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gan gyfeirio yn arbennig at Cronfa Eleri a Chyngor Ceulanamaesmawr. Oherwydd sefyllfa ariannol dderbyniol ar ddiweddd y flwyddyn, gyda £15,076 mewn llaw, cytunwyd i beidio â chodi costau llogi'r Neuadd.

Adroddodd y Trysorydd Codi Arian, David Nutting fod £26,303 yn y Cyfrif Cadw.

Etholwyd y Swyddogion Canlynol:
Cadeirydd: Mererid Watson

Is-gadeirydd: Gwenallt Llwyd Ifan
Ysgrifennydd: Phil Davies
Is-Ysgrifennydd: Siwan Thomas
Trysorydd: Ieuan Morgan
Trysorydd Codi Arian: David Nutting

Wrth dderbyn y gadeiryddiaeth, manteisiodd Mererid ar y cyfle i ddiolch i Dafydd am ei waith a'i arweiniad yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd, gan gollu un cyfarfod yn unig yn ystod y ddwy flynedd y bu wrthi. Ategwyd y gwahoddiad i unrhyw un sydd yn dymuno bod yn aelod o'r Pwyllgor i gysylltu â'r swyddogion.

Yng nghyfarfod misol y Pwyllgor Rheoli, yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol, cytunwyd i fwrw ymlaen gyda rhagor o welliannau i strwythur y Neuadd gan gynnwys gosod grisiau diogel i'r ystafell reoli uwchben Ystafell y Cyfeillion, ac i wneud gwaith plastro mewnol ar y wal ddeheuol.

Derbyniwyd adroddiad hefyd o noson lwyddiannus Hwyl Ddewi, a gofynnwyd am awgrymiadau ar gyfer yr adloniant y flwyddyn nesaf.

DPhD

Cynnal: Llif

Mewn partneriaeth â Grŵp Cymunedol Llifogydd Tal-y-bont, mae Tir Canol wedi cynnal pedwar Gweithdy Cyd-ddylunio yn nalgylch Leri. Cafodd y gweithdai eu hwyluso gan Anthony Hurford a Dafydd Morris Jones. Maent yn rhan o brosiect “Cynnal Llif”, sef prosiect sy’n para blwyddyn ac yn gweithio gyda’r gymuned, tîrfeddianwyr ac asiantaethau eraill i ddatblygu adroddiad “Cam wrth Gam”. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y camau i’w cymryd i Reoli Llifogydd yn Naturiol wrth gefnogi adferiad byd natur a grymuso cymunedau.

Mae “Cynnal Llif” yn un elfen o “Cynnal”, sef prosiect pedair blynedd wedi ei ariannu gan Ymddiriedolaeth Esmee Fairburn. Mae cyfres o weithdai a digwyddiadau yn cael eu cynnal fel rhan o’r prosiect hwn. Ar 2 Mawrth, aeth Hannah Doyle, un o artistiaid preswyl Tir Canol, i’r ysgol i gynnal gweithdy printio leino i annog disgyblion i archwilio’r gwrychoedd a’r bywyd gwylt sy’n byw ynddynt. Hefyd, fe gynhaliodd Hannah weithdy torlunio pren yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar 3 Mawrth, er mwyn codi ymwybyddiaeth o’r prosiect Llif, ac i drafod ei chyfnod fel artist preswyl. “Diolch am y digwyddiad, yr oedd yn brofiad gwych, ces i drïo rhywbeth newydd a dysgu am y prosiect” oedd neges un o’r mynychwyr.

Mae Hannah wedi cael ei hysbrydoli’n fawr gan yr holl waith plannu gwrychoedd sy’n digwydd. Wrth drafod ei phrofiadau yn plannu coed, dywedodd Hannah, “Rwyf i wedi rhyfeddu at ba mor eang yw’r prosiect, ac at harddwch y gwrychoedd ac ymroddiad y gymuned sydd wedi eu plannu”. Erbyn diwedd y gaeaf, bydd “Coed Tal-y-bont” wedi plannu oddeutu 36,000 o goed i greu gwrychoedd. Mae Coed Tal-y-bont wedi gweithio â phum tîrfeddianwr, yn ogystal ag asiantaethau eraill, er mwyn cefnogi bioamrywiaeth a’r gymuned leol. Mae asiantaeth Coed Cadw wedi darparu coed a chefnogaeth ariannol i’r cynllun hwn.

Bydd mwy o gyfleoedd i ymuno yn yr hwyl eto’n fuan, yn ogystal â chyfle i weld gwaith holl artistiaid preswyl Tir Canol mewn digwyddiad rhyngweithiol ddiwedd Ebrill yn Star of the Sea. Artistiad preswyl Tir Canol yw Ailsa Mair Hughes, Veronica Calacarco a Hannah Doyle. Gan fod y gweithdy diwethaf mor boblogaidd, bydd cyfle arall i roi cynnig ar brintio leino ym mis Ebrill. Bydd Hannah hefyd yn arddangos ei gwaith gorffenedig yng nghaffi Cletwr fis Awst.

Mae ein cylchlythyr ar gael ar ein gwefan www.tircanol.cymru ac mae croeso i chi gysylltu â ni i gael rhagor o wybodaeth drwy anfon e-bost at info@tircanol.cymru

Mae Tir Canol yn gymuned sy’n dylunio ac yn darparu canlyniadau cadarnhaol i natur a phobl trwy ein defnydd o’r tir a’r môr. Yr RSPB sy’n cynnal y prosiect Tir Canol.

Naomi Heath



Mae’n anodd credu am y tywydd hyfryd a heulog cawsom dros yr wythnosau diwethaf. Gobeithio bydd hi’n parhau dros y Pasg a’r Haf - mae angen i’n busnesau lleol cael blwyddyn lwyddiannus ar ôl tawelwch y llynedd.

Mae hi wedi bod yn fis prysur yn Cletwr, diolch i’n staff, gwirfoddolwyr, y tywydd a haelioni ein cwsmeriaid a chefnogwyr, sy’n dewch i mewn i siopa ac ymlacio yn y caffi, ond hefyd sydd wedi cefnogi i’n hapel ariannol. Mae’r gronfa ar-lein ar JustGiving bellach wedi cyrraedd dros £24,000, gyda swm sylweddol ychwanegol wedi ei gyfrannu yn uniongyrchol yn y siop. Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr, amlwg - mae’r silffoedd yn llawn eto, mae stoc newydd yn dod i mewn yn rheolaidd, ac mae awyrgylch mwy positif ymhobman. Diolch i chi i gyd.

Mae’r rhaglen digwyddiadau yn ffynnu.



Roedd ymweliad Phil Wheeler a’r Machynlleth Sunshine Band yn noson gampus dros ben. Roedd y caffi yn llawn gyda phobl yn mwynhau sesiwn o jazz rhagorol. Codwyd swm sylweddol at gronfa Cletwr hefyd. Gobeithio cawn eu gweld nhw eto rhywbryd. Cynhaliwyd Ffair Llyfrau yn ystod y mis hefyd. Cofiwch fod llyfrau newydd ac yn ail law ar werth yn y siop bob amser. Diolch i’r sawl a rhoddodd llyfrau ail law cyn y Ffair i sicrhau roedd stoc dda gennym.

A beth sy’n dod ym mis Ebrill? Y peth cyntaf yw cyfres newydd o deithiau tywys i weld (a gwranddo ar) yr adar lleol, dan arweiniad Caroline de Carle. Ar y 12fed, am 8yb, bydd ‘côr y bore bach’ yn ffocws y daith. Wedyn ar 26ain am 9yb bydd Caroline yn adnabod adar drwy eu caneuon, ac yn olaf, dydd Sul 4ydd o Fai am 7yb, bydd daith yn Gwm Cletwr i wrando ar gôr y bore bach eto, ar ddiwrnod Rhyngwladol Côr y Bore Bach. Maent dim ond £5 yr un, ond rhaid bwcio yn gyflym, gan fod llefydd yn gyfyngedig. Wedyn, cerddoriaeth ar 25ain. Noson ‘Meic Agored’ dan arweiniad Andy Lloyd Williams. Dewch yn llu gyda’ch lleisiau a’ch offerynnau.

Roedden ni’n bwriadu cael pryd o fwyd gan ein ffrindiau’r Prosiect Cinio Syriaidd, ond mae hyn wedi’i ohirio tan Fis Mai. A hysbyseb o flaen llaw am gwpl o bethau ym mis Mai: ar yr 11eg fe fydd Sinffonia Cymru yn dod eto, gyda chyngerdd am ddim. Manylion i ddilyn. Ac ar ddydd Sul 18fed bydd ein Gŵyl y Peillwyr flynyddol: diwrnod llawn hwyl a digwyddiadau. Rhaglen a manylion ym Mhapur Pawb mis nesaf.

Mwynhewch y Pasg (cofiwch fod cardiau ac wyau siocled ar gael yn y siop!).

NC

Adweitheg
(Reflexology)

Bethan Ifan - Aberystwyth
07375 422 608

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Chwaraeon a Hamdden

Ultra Marathon

Cynhaliwyd yr *Ultra Marathon 50* milltir Caer ar Ddydd Sadwrn 15fed o Fawrth. Y lleoliad cychwynnol oedd ym Mhentref Chwaraeon Ellesmere Port. Roedd yr 20 milltir gyntaf yn dilyn llwybr Camlas y *Shropshire Union* a llwybrau amlwg trwy ganol dinas Caer. Yna symudwyd drwy Goedwig *Delamere, Frodsham* a *Helsby Hill* cyn gorffen y 4 milltir olaf yn ôl yn *Ellesmere Port*.

Gan ddechrau am 6 y bore, roedd y tywydd yn oer iawn ar y cychwyn ond roedd y diwrnod, er yn oer, yn heulog. Roedd rhai manau mwdlyd ar hyd llwybr y gamlas a achosodd rai amodau rhedeg anodd cyn i'r rhedwyr fynd i rannau bryniog *Coedwig Delamere, Frodsham* a *Helsby Hill* - gyda golygfeydd godidog ar draws yr aber draw tuag at *Runcorn* a *Lerpwl*. Yn ystod milltiroedd 45-48 gwelwyd y rhedwyr yn croesi caeau aredig anodd cyn croesi'r M56 ac yn ôl ar Gamlas y *Shropshire Union*.



Ar y diwedd bu'n rhaid iddynt gwblhau lap 400 m o'r trac cyn croesi'r llinell derfyn.

Dyfarnwyd medal aur i'r 200 rhedwyr cyntaf, dyfarnwyd arian i'r rhedwyr 200-399 a dyfarnwyd efydd i'r rhedwyr eraill.

Dechreuodd dros 600 o redwyr y ras gyda 489 yn gorffen o fewn yr amser terfyn o 17 awr. Cwblhaodd 107 o ferched y ras a gorffennodd Elaine yn safle 35 allan o 107 ac yn 2il yn ei grŵp oedran F55-59 gydag amser o 11 awr 36 munud gan ennill medal arian iddi hi ei hun ac roedd hi'n hynod o hapus gyda hyn.

Dywedodd Elaine fod y digwyddiad yn arbennig o anodd yn ystod yr adran ganol gyda'r holl fryniau a chaeau mwdlyd i'w croesi ond roedd hi'n benderfynol o orffen cyn iddi dywyllu ac yn hapus ei bod wedi gwneud hynny. Gwisgodd ei byff Cymreig ar y diwrnod i gefnogi gêm rygbi Cymru yn erbyn Lloegr er na lwyddon nhw i sicrhau buddugoliaeth crystal â hi. Dywedodd Elaine fod y digwyddiad wedi'i drefnu'n dda iawn ac yn gefnogol gyda phwyntiau gwirio gwych gan dîm *GB Ultras*.

ER

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs / Dau gwrs)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Rygbi Bae Dolphins

Aeth criw o ferched yr ardal sy'n rhan o Glwb Rygbi'r 'Bae Dolphins' i Gaerdydd ar gyfer gem rygbi merched Cymru yn erbyn Lloegr. Aeth 140 o aelodau o'r clwb lawr gyda'r rhif mwyaf erioed o bobl yn gwyllo digwyddiad chwaraeon i ferched yng Nghymru. Bu rhai o'r merched o'r clwb yn chwarae gem rygbi yno a'r rhan fwyaf yn cael cyfle i groesawi'r chwaraewyr i mewn i'r stadiwm fel Gwarchodwyr Anrhydedd. Dewiswyd 27 o'r merched i fynd



Ela Williams

ar gae Stadiwm y Principality gyda'r chwaraewyr. Profiad arbennig iawn i'r merched sef: Leah Cartwright, Ariana Lloyd Williams, Lela Jenkins, Mari Evans, Alaw Morgan, Ela Williams, Jessie Jenkins ac Erin Aubrey.



Ela Williams, Jessie Jenkins ac Erin Aubrey



Lela a Jessie Jenkins

Clwb Rygbi Aberystwyth

Llongyfarchiadau i'r ddau Dylan, Dylan Wyn Benjamin, Maesyderi a Dylan Jones Awel y gors a Jac Jones, Ynystudur ar eu llwyddiant gyda Chlwb Rygbi Aberystwyth. Sicrhawyd dyrchafiad gan y clwb i Adran Bencampwriaeth y Gorllewin wedi buddugoliaeth o 46 pwynt i 22 yn erbyn Cydweli yn ngêm olaf y tymor. Da iawn fechgyn.



Criced Gogledd Cymru

Llongyfarchiadau i Osian, Awel y gors ar gael ei ddewis i gynrychioli Criced Gogledd Cymru ar ôl sesiynau hyfforddi dros y Gaeaf. Fe fydd yn chwarae mewn gemau dros yr Haf - pob lwc i ti Osian!

Gwefan Papur Pawb:
papurpawb.cymru
Gwefannau
cymdeithasol:
@papurpawb

